**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1400
Ein cyf/Our ref MDFWL/10145/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr ac am waith parhaus y pwyllgor deisebau i dynnu sylw at y ddeiseb bwysig hon gan BMA Cymru.

Mae'r gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr, yn amlinellu'r blaenoriaethau gwariant ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys cyllid i gyflawni ein hymrwymiad 'Iechyd Da'. Yn rhan o hyn, gwnaeth y Gyllideb Ddrafft flaenoriaethu'r maes iechyd a gofal cymdeithasol a rhoddwyd cyllid adnoddau ychwanegol gwerth £435 miliwn i'r prif grŵp gwariant (MEG). Roedd hyn ar ben y cyllid ychwanegol sydd wedi'i roi i wasanaethau rheng flaen y GIG ar gyfer 2024-25. Gyda'i gilydd, mae ein buddsoddiad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn £880 miliwn, sef cynnydd o 8%. Rydym hefyd yn buddsoddi yn seilwaith y GIG, gyda chyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £175 miliwn i wella ystâd y GIG yn ogystal â buddsoddi mewn offer newydd a thechnoleg ddigidol.

Bydd y Gyllideb Ddrafft yn ein galluogi i ailfuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus ar ôl gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn mewn cylchoedd cyllideb diweddar. Byddwn yn dal i wynebu pwysau, ond rydym wedi sicrhau bod yr adnoddau cyllidol sydd gennym yn rhan o'r gyllideb hon yn cyd-fynd â'r materion pwysicaf i bobl Cymru. Mae'r gyllideb hon yn arwydd o ddyfodol mwy disglair i Gymru, gan roi'r wlad ar ben ffordd at dwf unwaith eto.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn sicrhau'r Pwyllgor a BMA Cymru ein bod yn cydnabod pwysigrwydd darparu'r lefel briodol o gymorth ariannol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ond wrth gwrs, mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fydd penderfynu yn awr ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys y cyllid ar gyfer ymarferwyr cyffredinol.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg